



Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 11eg o Fai 2023 i ddilyn y Cyfarfod Blynyddol Agenda

1. Presennol: /Present
2. Ymddiheuriadau: Apologies
3. Datgan buddiant / Declaration of interest
4. Derbyn cofnodion / Accept Minutes 13eg o Ebrill / April 2023
5. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising
6. Materion ariannol / Financial Issues
 - i. Mantolen ariannol / Financial report
 - ii. Cofnodion cyfarfod IBC / Minutes of S F C 26/04/2023
7. Cynllunio / Planning
 - a. C23/0311/25/LL Lleoliad : Hafodol Ffordd Y Fodolydd, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4QD
Bwriad : Dymchwel tŷ presennol ynghyd a sied amaethyddol a chodi tŷ newydd yn eu lle ynghyd a modurdy ar wahân; gweithdy, gwaith trin dwr aflan a sudd fan ddŵr ynghyd a rhodfa newydd.
 - b. C23/0346/25/LL Lleoliad : Old Manor House, Parc Y Faenol, Bangor, Gwynedd, LL57 4BP
Bwriad : The proposal is for the change of use of the working stables to residential use. This includes a request for an extension with a glass link to the stable building. The provision of a glass link is to preserve the existing elevations of the listed building.
 - c. C23/0174/25/CR Lleoliad : Old Manor House, Parc Y Faenol, Bangor, Gwynedd, LL57 4BP
Bwriad : Addasiadau mewnol ac allanol i adeilad rhestredig a chodi estyniad newydd cefn
 - d. C23/0316/25/DT Lleoliad: Bryn Awel, Pentir, Bangor, Gwynedd, LL57 4EA Bwriad : Trosi garej ac estyniad i greu anecs / swyddfa gartref . Conversion and extension to create an annexe/home office.
8. Materion y Clerc / Topics from the Clerk
 - Cyfarfod Gamlin's Ganolfan/Ysgol y Faenol
 - Yswiriant Trafod pris adnewyddu
 - Septic Tanc Diweddariad
 - Capel y Fynwent Diweddariad
 - Cae chwarae Caerhun Diweddariad
 - Hyfforddiant Cynllun
 - Cais Cyngor Pistyll
 - Calendr 2023-24 Cyngor Pentir
9. Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics
 - Cyng L A James Adnewyddiadau'r Ganolfan
 - Cyng M Baibes Llwybr Treborth
 - Cyng B. Jones Clirio Ffordd Menai a'i Goleuadau



Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion cyfarfod Cyngor Llawn Nos Iau 13eg o Ebrill 2023 gynhalwyd yng Nghanolfan Gymunedol Penrhosgarnedd am 7.00 y.h

Yn absenoldeb ein Cadeirydd etholwyd Cyng Menna Baines i gadeirio am y noson

1. **Presennol:** Cyng M Baines, – Cadeirydd.; Cyng D Jones-Morris; Cyng B Jones, Cyng J Lewis, Cyng J Pierce, Cyng I Ellis, Cyng C W Owen, Cyng A Joyce; a James Griffith
Sioned Jones Cyfieithydd a'r Clerc E Jones

Cyfethol

Yn dilyn ymddiswyddiad aelod, a hysbyseb ar y wefan un enw ddaeth ymlaen i ddatgan diddordeb cael ei gyfethol sef y cyn gynghorydd James Griffiths Cynnigwyd ei gyfethol gan y Cyng D Jones-Morris ag eilwyd y cynnig gan Cyng J Pierce.

Derbynwyd sylw gan y Cyng A Joyce nad oedd y sedd wag wedi ei hysbysu yn ddigonol a'i bod wedi ei hysbysebu mysg Newyddion ar y Wefan yn hytrach nag ar y dudalen blaen Hysbysfwrdd y Wefan ble oedd hen hysbyseb sedd yn ymddangos

Nodwyd ei sylw

Croesawyd Cyng James Griffiths yn ol i'r Cyngor.

2. **Ymddiheuriadau:** Cyng M Lynch; Cyng D W Jones Cyng L A James Cyng Dafydd Meurig

3. **Datgan buddiant**

Cyng M Baines Cyng A Joyce a'r Cyng J Pierce yn datgan diddordeb eu bod yn aelodau o bwyllgor Rheoli'r Ganolfan Gymuned

4. **Derbyn Cofnodion 9fed o Fawrth**

Cynnigwyd eu bod yn gofnodion cywir gan y Cyng J Pierce ag eilwyd gan y Cyng C W Owen

Derbynwyd cais gan y Cyng A Joyce i gael cyfieithiad o'r Cofnodion cyn cyfarfodydd fel ei fod yn gallu mynegu barn am gywirdeb

Esbonwyd mae ar hyn o bryd ar ol iddynt gael ei derbyn oedd y Clerc yn eu anfon at Cymen i'w cyfieithu

Nodwyd ei gais gan ofyn i'r Clerc ei anfon cyn cyfarfodydd

5. **Materion yn codi**

Holwyd os oedd unrhyw ddatblygiad parthed cais cynllunio Tafarn y Faenol.

Clerc heb dderbyn unrhyw ddiweddariad

6. **Materion ariannol**

- I. Mantolen ariannol

Roedd y fantolen ariannol wedi ei rhannu hefo pawb yn dangos

£13,959.73 yn y cyfrif cyfredol a

£45,125.79 yn y cyfrif cadw

- II. Archwyllo Allannol

Y Clerc eto wedi bod yn holi am adroddiad derfynnol 2021-22 ond heb dderbyn ymateb. Sawl cyngor cymuned arall wedi bod yn cwyno yng nghyfarfod Unllais

- III. Cofnodion cyfarfodydd IBC 29/03/2023

Cyn cychwyn y cyfarfod Is-bwyllgor Cyllid 'roedd cyfarfod brys i drafod llythyr oedd wedi ei anfon gan y Brifathrawes at rieni disgyblion Ysgol y faenol

Cymaint oedd consyrn y Cyngorwyr am ddiogelwch plant yr Ysgol oedd yn defnyddio maes parcio ein Canolfan cytunwyd bod angen trefnu cyfarfod ar frys rhwng cynrychiolaeth o'r Cyngor a'n cyfreithwyr.



Cyngor Cymuned Pentir

Serch sawl ymdrech gan y clerc i drefnu hynny nid oedd y Cyfreithwyr wedi ymateb a datganwyd siom am hynny

Clerc i gysylltu yn ol unwaith yn rhagor cyn ceisio cael ymateb gan y Cwmni

7. Cynllunio

Cais hwyr wedi ei rannu oedd ddim ar yr Agenda

C23/0278/25/AC Lleoliad / Location: Fferm Tŷ'n Pwll, Caerhun, Bangor, Gwynedd, LL57 4DU Cais i ddiddymu amod rhif 4 (defnydd atodol at ddefnydd preswyl yr annedd yn unig) o ganiatâd cynllunio C21/0779/25/LL, ar gyfer newidiadau allanol i'r gweithdy/stiwdio, a gosod amod personol yn ei le yn cyfyngu ar ddefnydd yr adeilad i'r ymgeisydd yn unig.

Dim Gwrthwynebiad

8. Materion y Clerc

- Ganolfan newydd
 - Dim ddiweddariad o ochr Gwynedd na'r Eglwys
Awgrymwyd fod llythyr oddiwrth yr Aelod Lleol i fnyd at yr Esgob i ddatgan anfonlonrwydd y gymuned gyfan
- Ganolfan bresennol
 - Diweddariad o'r adnewyddu
Er nad oedd yn bresennol heno diolchwyd i'r Cyng L A James am ei ymroddiad a'i threfniadau parthed yr holl waith adnewyddu.
Mae'r Ganolfan wir ar ei newydd wedd
- Capel y Fynwent
 - Gwaith Llorio
Y Clerc wedi derbyn ail amcanbris i godi'r llawr pren a llorio o bopty'r rhodfa, ond yn awyddus i gael barn broffesiynol cyn i unrhyw waith ddechra a'r gael dwr i mewn ag allan o'r adeilad gan y byddai rhy hwyr ar ol gosod llawr.
Cytunwyd iddo gysylltu a Chwmni Ymgynghoriad Cadarn i drafod gan bwysleisio mae cael y llawr yn ei le oedd y flaenoriaeth am 2023-24 ag unrhyw waith ychwanegol i flynyddoedd ar ol hynny
- Cysgodfannau Bws
 - Dosbarthu llythyrau i'r Trigolion wedi ei wneud ag er bod yn Clerc wedi cael gwrthwynebiad ar y ffon ond dim byd ysgrifennedig a'r cyfnod felly ar ben
Dim diweddariad ar gael gosod Cysgodfan yn Capel Graig
Clerc i holi Gwynedd unwaith eto ynghyd a holi os oedd posib iddynt osod mwy fel sydd wedi digwydd mewn cymunedau cyfagos
- Cynllun Hyfforddiant
 - Ffurflenni Cynllun Dysgu Cynghorwyr
Ffurflenni pawb wedi eu derbyn erbyn hyn a felly angen cychwyn ar y Cynllun
- Adroddiad Adran 6 Bioamrywiaeth
E-bost wedi ei dderbyn ddechrau'r wythnos yn holi am adroddiad fel ddilyniant i'r adroddiad ddarparwyd cyn y pandemig
- Di-gomisynnu Septic Tanc Glasinfryn
Mae cyfnod 6 mis roddwyd i berchennog yr hen Eglwys i wneud ei ddarpariaeth carffosiaeth ei hun, wedi dod i ben, ers Mis Ionawr a felly angen cael cytundeb ac amcanbris digomisynnu y septic tanc.



Cyngor Cymuned Pentir

Y Clerc i holi am brisiau a dyddiad gan contractwr a gofyn i'n Cyfreithwyr wedyn i anfon at y perchenog i gadarnhau ein trefniadau

- Cais Teulu Florence i osod Mainc er cof am Mrs P Florence
Derbynwyd y cais mewn egwyddor gan fod yna un eisioes yn y ddwy fynwent ond ychwanegwyd ein bod angen tynnu allan bolisi i reoli maint a gwneuthuriad meinciau o'r fath ag o bosib hefyd trefn o'i cynnal a'i cadw

Clerc i gysylltu a'r teulu

9. Materion y Cyngorwyr

➤ Cyng J Lewis

- Torri Gwair ar 'y Green': PP yn dymuno cael o leiaf un toriad o'r parth i gyd gan gynnwys y llecyn blodau' gwyllt.

Clerc I gysylltu a D W Lewis y contractwr

- Llwybr yn mynd heibio'r 'Lodge': Byddai PP yn croesawu pe byddai Cyngor Pentir yn mabwysiadu gofal am y llwybr.

Clerc wedi derbyn cadarnhad o Cyngor Gwynedd mae eiddo cyhoeddus ydi'r hen ffordd ag felly cyfrifoldeb y Cyngor hwnnw yw ei cynnal

Clerc i holi ymhellach os yw'n bosib i'r Criw Tacluso wneud y gwaith

- Bwrdd dehongli: PP yn croesawu'r syniad. (A oes angen i hyn fynd o flaen y cyngor llawn cyn contractio hwylusydd?

Y Cyng yn hapus i gysylltu nol hefo'r hwylusydd i gael torri'r amcanbris i lawr i wahanol elfennau

- Y capel: LAJ a JL wedi trafod y gwelliannau diweddar. PP yn awyddus cael ymweliad wedi i'r gwaith ddod i ben. **Dim problem i hynny ddigwydd**

➤ Cyng J Pierce

Fel aelod o bwyllgor y Ganolfan holodd os oedd cyfrifon dderbynwyd yn ddiweddar am 2021-22 wedi eu archwyllo ag os oedd posib cael trefnu Cyfarfod Blynyddol a derbyn cyfrifon 2022-23 Cadarnhawyd nad oedd y cyfrifon wedi eu archwyllo ond y byddai nhw erbyn y Cyfarfod Blynyddol

Cytunwyd anelu cael y cyfarfod blynyddol yn ystod Mis Mai

➤ Cyng M Baines

Diweddariad o Llwybr Treborth – wedi cael ar ddeallt fod dros 200 o ffurflenni tystion wedi eu derbyn a 26 wedi eu cyfweld Dim amserlen ar gyfer pryd mae'n debygol o ddod i derfyn

Daeth y cyfarfod i ben 9.10